


# **Ceisio Eich Barn am Raglen Waith yr Archwilydd Cyffredinol**

---

Mawrth 2022



## Trosolwg

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am eich barn i oleuo rhaglen archwilio'r Archwilydd Cyffredinol yn y dyfodol ar gyfer 2022-23 a'r tu hwnt. Yn arbennig, mae'n ystyried testunau y gellid rhoi sylw iddynt trwy ein harchwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol a/neu drwy waith archwilio lleol ar draws nifer o gyrff y GIG, llywodraeth ganolog a llywodraeth leol. Nid yw'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud ag archwilio cyfrifon, sef y rhan fwyaf o waith yr Archwilydd Cyffredinol, gan fod gwaith o'r fath wedi'i bennu mewn statud yn y bôn.

Mae ein [Cynllun Blynyddol 2021-22](#) yn darparu rhagor o fanylion am ein nodau, uchelgeisiau a rhaglenni gwaith ar y cyfan. Ar ran pobl Cymru, rydym yn archwilio gwariant cyhoeddus ac yn nodi ffyrdd o wella gwasanaethau cyhoeddus. Mae ein gwaith yn cefnogi craffu effeithiol ar arian cyhoeddus gan y Senedd a chynrychiolwyr a etholwyd yn lleol. Rydym yn gwbl annibynnol ar y llywodraeth.

Sicrhau	Egluro	Ysbrydoli
		
pobl Cymru bod arian cyhoeddus yn cael ei reoli'n dda	sut y mae arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio i ddiwallu anghenion pobl	a grymuso'r sector cyhoeddus yng Nghymru i wella

Archwilio Cymru yw'r enw anstatudol cyfun am Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân ac sydd â'u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol. O ganlyniad, yn yr Adroddiad hwn, rydym yn cyfeirio'n benodol at yr Archwilydd Cyffredinol neu Swyddfa Archwilio Cymru mewn adrannau lle mae angen bod yn gyfreithiol fanwl.

## Sut i ymateb

Anfonwch eich ymateb atom drwy ddilyn un o'r opsiynau hyn:

- gallwch lenwi ein [ffurflen ymgynghori ar-lein](#); neu
- gallwch lawrlwytho [dogfen Word drwy'r ffurflen ymgynghori ar-lein](#), i'w chwblhau, ac wedyn e-bostio neu bostio eich atebion gan ddefnyddio'r manylion isod.

Byddem yn croesawu ymatebion erbyn **8 Ebrill 2022** os yn bosibl o gwbl, ond byddwn yn ystyried yr ymatebion a gafwyd ar ôl yr amser hwn i lywio ein gwaith parhaus o gynllunio'r rhaglen waith.

Rydym yn croesawu ymatebion naill ai yn Gymraeg neu yn Saesneg.

Ymgynghoriad ar y Rhaglen Waith

Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd

CF11 9LJ

E-bost i: [post@archwilio.cymru](mailto:post@archwilio.cymru)

Os oes angen y cyhoeddiad hwn arnoch mewn fformat a/neu iaith arall, cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion a ddarperir uchod neu dros y ffôn ar 029 2032 0500.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg ac yn Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

## Cyfrinachedd a diogelu data

Gall gwybodaeth a ddarperir mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn gael ei chyhoeddi neu ei datgelu yn unol â deddfwriaeth mynediad at wybodaeth (yn bennaf Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, ond hefyd deddfwriaeth diogelu data, gan gynnwys y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004).

Os oes arnoch angen i unrhyw wybodaeth a ddarperir gennych gael ei thrin fel gwybodaeth gyfrinachol, dylech ddweud wrthym pam eich bod yn ystyried bod yr wybodaeth yr ydych wedi'i darparu'n gyfrinachol. Os byddwn yn cael cais i ddatgelu gwybodaeth byddwn yn rhoi ystyriaeth lawn i'ch eglurhad, ond ni allwn roi unrhyw sicrwydd y gellir cynnal cyfrinachedd dan bob math o amgylchiadau. Ni fydd ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchwyd gan eich system TG, ohono'i hun, yn cael ei ystyried yn un sy'n rhwymo'r Archwilydd Cyffredinol na Swyddfa Archwilio Cymru.

Bydd data personol yn cael ei brosesu yn unol â deddfwriaeth diogelu data. Lle mae data o'r fath yn dod o fewn cwmpas cais am wybodaeth gan rywun arall, bydd angen ystyried darpariaethau deddfwriaeth diogelu data a'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn yr amgylchiadau penodol. Er na ellir rhagfarnu unrhyw sefyllfa, mae hyn yn debygol o olygu bod gwybodaeth ynghylch uwch swyddogion a ffigurau cyhoeddus yn debygol o gael ei datgelu tra bo enwau a chyfeiriadau aelodau cyffredin o'r cyhoedd yn debygol o gael eu cadw'n ôl.

## Y Gymraeg

Mae'n ofynnol i Archwilio Cymru gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg sy'n darparu ar gyfer peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Ceir rhagor o wybodaeth am ein [trefniadau ar gyfer y Gymraeg ar ein gwefan](#). Wrth adolygu'r ymgynghoriad hwn, byddem yn croesawu eich barn pa un a ydych chi'n ystyried bod unrhyw beth yn yr ymgynghoriad hwn sy'n tanseilio neu'n cefnogi'r gofyniad hwn. Byddem hefyd yn croesawu eich meddyliau ynglŷn ag unrhyw ddiwygiadau y gellid eu gwneud i gefnogi cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg neu sicrhau nad ydym yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

## Cynnwys

Rhagair yr Archwilydd Cyffredinol.....	6
Materion allweddol ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus.....	9
Meysydd ffocws posibl ar gyfer gwaith archwilio yn y dyfodol.....	10

## Rhagair yr Archwilydd Cyffredinol

Mae'n bleser gennyf wahodd eich barn am drefn fy rhaglen waith archwilio ar gyfer 2022-23 a'r tu hwnt.

Dyma'r ail waith i ni fod wedi ymgynghori'n ffurfiol ar fy rhaglen waith ers i mi ddod yn Archwilydd Cyffredinol ym mis Gorffennaf 2018, er bod llawer wedi newid yn yr amgylchedd ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus dros y cyfnod hwnnw. Wrth i ni ddatblygu a chyflawni'r rhaglen waith yn y dyfodol, byddwn yn rhoi themâu allweddol a geir yn ein strategaeth bum mlynedd newydd ar waith, sef:

- cyflawni rhaglen archwilio strategol, ddeinamig o ansawdd uchel; a hynny'n cael ei ategu gan
- ddull o gyfathrebu a dylanwadu sydd wedi'i dargedu ac yn cael effaith fawr.

## Rhaglen archwilio strategol, ddeinamig o ansawdd uchel

Pan ddeuthum yn Archwilydd Cyffredinol, roedd gwasanaethau cyhoeddus eisoes dan bwysau difrifol oherwydd cyni cyllidol ac mae pandemig COVID-19 yn syml wedi gwaethygu'r pwysau hynny.

Wrth i ni ddechrau dod allan o'r pandemig, mae'n anorfod y bydd ei effaith yn dal i gael dylanwad sylweddol ar ein gwaith. Mae symiau digynsail wedi cael eu gwario wrth i wasanaethau cyhoeddus ymateb. Byddwn yn blaenoriaethu gwaith sy'n archwilio'r arian ychwanegol sydd wedi cael ei wario yng Nghymru o ganlyniad i'r pandemig a'r gwerth am arian a gyflawnwyd. Mae gwasanaethau cyhoeddus yn wynebu her ymdrin â gwaddol y pandemig o fewn cyfyngiadau cyllid cyhoeddus sydd dan bwysau. Bydd ystyried sut y mae adferiad gwasanaethau cyhoeddus yn mynd rhagddo ac effaith fwy hirdymor y pandemig yn faes ffocws allweddol i ni hefyd.

Mae llawer o'r heriau yr ydym yn eu hwynebu yng Nghymru heddiw – mewn meysydd megis anghydraddoldeb, iechyd y cyhoedd, ac argyfwng yr hinsawdd – yn gymhleth, yn gydgysylltiedig ac yn rhychwantu cyhoedd gwaith ystod o sefydliadau. Yn ystod y pandemig rydym wedi gweld cyrff cyhoeddus yn cydweithio'n agos mewn partneriaeth. Hyd yn oed cyn hyn, roeddem yn gweld cynnydd yn nifer y modelau darparu cydweithredol, megis partneriaethau, dinas-ranbarthau a defnydd cynyddol o gyrff hyd braich ac is-gwmnïau i ddarparu gwasanaethau.

Rhaid i'n ffocws archwilio esblygu i adlewyrchu'r modd y mae gwasanaethau cyhoeddus yn trefnu eu hunain i ymateb i'r heriau yr ydym yn eu hwynebu. Rydym yn bwriadu rhoi mwy o bwyslais yn ein cynhyrchion archwilio ar adroddiadau thematig, cymariaethau ar draws cyrff a archwilir ac adnabod arfer da i roi cymorth gwell i wasanaethau cyhoeddus

wella. Byddwn hefyd yn parhau i wreiddio ystyriaeth i'r egwyddor datblygu cynaliadwy a'r 'pum ffordd o weithio' ar draws ein gwaith archwilio.

Mae'r pandemig wedi dangos yn y ffordd gryfaf bod materion a heriau newydd yn gallu codi pan ddisgwylir hynny leiaf. Mae hon yn wers bwysig i ni wrth ddatblygu ein blaenraglen waith. Byddwn yn cynnwys mwy o hyblygrwydd yn ein rhaglen a'r modd y caiff ei chyflawni i'n galluogi i ymateb i faterion sy'n newydd ac yn dod i'r amlwg mewn amser real.

I ategu'r holl nodau hyn, rydym yn buddsoddi mwy yn ein capasiti a'n gallu ymchwil a datblygu. Hefyd, roedd ein Hamcangyfrif o Incwm a Threuliau ar gyfer 2022-23 yn amlygu ein dyhead i newid cyfran o'n cyllid ar gyfer 2023-24 a'r tu hwnt o ffioedd a godir ar gyrrff unigol y GIG a llywodraeth leol i Gronfa Gyfunol Cymru. Bydd y cynnig hwn yn rhan o'n hymgyngoriad ynghylch ffioedd yn ddiweddarach eleni.

Mae'r un maes mwyaf o fewn ein gwaith yn cefnogi gwaith i ddarparu fy marnau blynyddol ar ddatganiadau ariannol. Yn ystod 2022 a 2023 byddwn yn canolbwyntio ar ddod â'r amserlen cyhoeddi adroddiadau ymlaen i batrymau a oedd yn bodoli cyn y pandemig heb beryglu ein hymrwymiad llwyr i ansawdd archwilio. Fodd bynnag, mae'r gwaith yma'n rhoi inni gyfoeth o gudd-wybodaeth y gallwn ei defnyddio i ddarparu mewnwelediadau grymus ac unigryw. Dros y blynyddoedd nesaf rydym yn bwriadu datblygu ystod o allbynnau sy'n gwneud mwy o ddefnydd o'r gudd-wybodaeth hon. Yn 2022-23, bydd ein gallu i wneud hynny'n gyfyngedig ond rydym yn bwriadu mynd ati serch hynny i gyflawni nifer fach o ddarnau pwysig o waith o'r fath, ar y cyd â dod â'r amserlen cyhoeddi adroddiadau ymlaen.

## **Dull o gyfathrebu a dylanwadu sydd wedi'i dargedu ac yn cael effaith fawr**

Er mwyn i ni roi sicrwydd i bobl Cymru, egluro sut y mae arian cyhoeddus yn cael ei wario ac ysbrydoli gwasanaethau cyhoeddus Cymru i wella, mae'n hollbwysig bod ein gwaith yn cael effaith fawr a bod ein negeseuon yn taro deuddeg.

Mae ein gallu i gyflawni hyn yn dibynnu i gryn raddau ar y cyswllt uniongyrchol helaeth y mae staff Archwilio Cymru yn ei gael â chydweithwyr yn y cyrff yr ydym yn eu harchwilio ac mewn sefydliadau eraill. Hefyd, fodd bynnag, rydym yn bwriadu parhau â'n hymgais i gyflawni cynhyrchion archwilio byrrach, mwy awchlym ac ymatebol, gan gynnwys sylwebaeth mewn amser real ar faterion cyfamserol pwysig.

I wella effaith ein cynhyrchion archwilio byddwn hefyd yn rhoi mwy o bwyslais ar sicrhau bod eu ffurf a'r modd y'u cyflwynir yn fwy diddorol ac ysbrydoledig gydag iaith fwy clir a diamwys i bwysleisio'r negeseuon yr ydym yn dymuno'u cyfleu.

Yn olaf, rwy'n cydnabod y pwysau y mae'r rhai sy'n gweithio ar draws gwasanaethau cyhoeddus yn dal i'w hwynebu. Rwyf hefyd yn ymwybodol ein bod yn lansio'r ymgynghoriad hwn wedi inni hefyd wahodd pobl yn ddiweddar i fynegi barn am [ein hamcanion cydraddoldeb arfaethedig ar gyfer 2022-2026](#). Cynhelir yr ymgynghoriadau hyn ar adeg allweddol bwysig i wasanaethau cyhoeddus ac felly byddwn yn gwerthfawrogi'n fawr pe gallem gael eich meddyliau ynglŷn â'r meysydd ffocws posibl ar gyfer gwaith archwilio yn y dyfodol a nodir gennym.

Diolch yn fawr,




**Adrian Crompton, Archwilydd Cyffredinol Cymru**



## Materion allweddol ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus

- 1 Ym mis Medi a mis Hydref 2021, fe gyhoeddodd ni gyfres o adroddiadau fel rhan o'n dadansoddiad [Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus](#). Fe wnaethom grynhoi tueddiadau allweddol mewn cyllid cyhoeddus a nodi rhai o'r materion allweddol sy'n wynebu gwasanaethau cyhoeddus.



### Byd sy'n newid

- Newid yn yr hinsawdd: sicrhau trosglwyddiad teg a chyfiawn
- Cydraddoldebau: ymateb i alwadau am gymdeithas decach a mwy cyfartal
- Cyfansoddiad: rheoli cyfleoedd a risgiau perthnasoedd newydd o fewn y DU

### Y pandemig sy'n parhau

- Costau uniongyrchol yr ymateb
- Effeithiau economaidd ar gyllid cyhoeddus
- Costau etifeddol

### Trawsnewid y modd y cyflwynir gwasanaeth

- Systemau a diwylliant i gefnogi dulliau newydd o ddarparu gwasanaethau
- Cydweithio pwrpasol
- Cynllunio ac atal hirdymor
- Harneisio technoleg lle bo hynny'n briodol
- Defnyddio data i ddysgu ar draws y system gyfan

- 2 Byddwn yn defnyddio'r themâu hyn i helpu i drefnu ein rhaglen waith ochr yn ochr â'n dadansoddiad ehangach ynglŷn â risgiau allweddol, polisïau a rhaglenni pwysig, gwariant ar wasanaethau cyhoeddus a'u perfformiad. Byddwn hefyd yn ystyried cydbwysedd cyffredinol ein gwaith archwilio ar draws gwahanol feysydd polisi a nodir yn [Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru 2021-2026](#)<sup>1</sup> a chyddestun ehangach y saith [nod llesiant ar gyfer Cymru](#).

<sup>1</sup> Er y gallwn fwrw golwg ar faterion gwerth am arian (darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd) o ran y ffordd y rhoddir polisïau a rhaglenni allweddol ar waith, nid yw'n rhan o swyddogaethau Archwilydd Cyffredinol Cymru na Swyddfa Archwilio Cymru eu bod yn cwstyfnu rhinweddau amcanion polisi Gweinidogion Cymru.

# Meysydd ffocws posibl ar gyfer gwaith archwilio yn y dyfodol

## Datblygu ein rhaglen

- 3 Mae ffactorau amrywiol yn dylanwadu ar benderfyniadau ynglŷn â'r gwaith yr ydym yn ei wneud yng nghyd-destun pwerau a dyletswyddau penodol yr Archwilydd Cyffredinol<sup>2</sup>, er enghraifft mewn perthynas ag astudiaethau llywodraeth leol a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015<sup>3</sup>.
- 4 Isod rydym yn nodi meysydd ffocws posibl ar gyfer gwaith archwilio o 2022-23 ymlaen ochr yn ochr â pheth disgrifiad o waith a wnaed eisoes, sydd ar y gweill neu yn yr arfaeth. Rydym wedi defnyddio'r themâu o'n hadroddiad Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus 2021, er y bydd rhai o'r meysydd ffocws posibl yn cwmpasu nifer o themâu.
- 5 Byddai'n amhosibl i ni gyflawni gwaith ar draws pob maes ffocws posibl. Bydd angen i ni flaenoriaethu gan barhau i fod yn hyblyg i faterion sy'n dod i'r amlwg. Dyna pam fod arnom eisiau eich barn ynglŷn â'r blaenoriaethau allweddol yn eich tyb chi – y meysydd y mae'n werth eu hadolygu fwyaf ac, yn allweddol bwysig, ble'r ydych yn meddwl y gallwn gael effaith arwyddocaol.
- 6 Gall rhai o'r meysydd ffocws y byddwn yn dewis bwrw ymlaen â hwy fod yn addas ar gyfer gwahanol fathau o fewnbwn – papurau briffio byr, blogiau, offer data neu hwyluso proses i gyfnewid syniadau ac arfer trwy ddulliau eraill – yn hytrach nag adroddiad llawn.
- 7 Ochr yn ochr â'r ymgynghoriad hwn, byddwn yn datblygu cynlluniau seiliedig-ar-risg ar gyfer gwaith archwilio lleol yng nghyrrff unigol y GIG a llywodraeth leol. Bydd rhaid i ni gynnwys gwaith yn ein rhaglen hefyd i gyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn y chwe chorff perthnasol mewn llywodraeth ganolog lle nad ydym yn gwneud gwaith archwilio perfformiad fel rhan o'r drefn reolaidd<sup>4</sup>.
- 8 Wrth i ni geisio gweithio'n effeithlon a lleihau i'r eithaf y galwadau ar gyrrff a archwilir, byddwn hefyd yn rhoi ystyriaeth i waith a wneir neu sydd yn yr arfaeth gan gyrrff adolygu allanol eraill. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, Arolygiaeth

<sup>2</sup> Mae ein [Canllaw i Ddeddfwriaeth Archwilio Cyhoeddus yng Nghymru](#) yn crynhoi pwerau a dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol ac mae [Cod Ymarfer Archwilio'r Archwilydd Cyffredinol](#) yn rhagnodi'r ffordd y dylai ei swyddogaethau archwilio a swyddogaethau penodol eraill gael eu cyflawni.

<sup>3</sup> Rydym wedi [ymgyngori'n flaenorol](#) ar ein dull o wneud gwaith dan Ddeddf 2015 yn ystod 2020-2025. Lle bynnag y bo'n bosibl rydym yn amcanu at integreiddio ein hystyriaeth i'r egwyddor datblygu cynaliadwy â'n harchwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian a gwaith archwilio lleol yn hytrach na chynnal adolygiadau unigol.

<sup>4</sup> Cyfoeth Naturiol Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC), Amgueddfa Cymru, Chwaraeon Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru.

Gofal Iechyd Cymru, Arolygiaeth Gofal Cymru, Estyn, yr amryw gomisiynwyr yng Nghymru a'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus. Byddwn hefyd yn cynnal cyswllt â chyrrff eraill sy'n canolbwyntio ar wasanaethau cyhoeddus – megis Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru a Chanolfan Llywodraethiant Cymru – a byddwn yn ystyried cyfleoedd i'n gwaith oleuo gweithgarwch craffu gan bwyllgorau'r Senedd.

## Y pandemig parhaus



- 9 Rydym eisoes wedi gwneud gwaith archwilio ar yr ymateb i COVID-19. Yn gynnar yn y pandemig fe lansiom ni ein Prosiect Dysgu COVID-19, gyda blogiau ac allbynnau eraill yn cynnig mewnwelediad i rai o'r materion allweddol ac ymatebion lleol gan gynnwys, er enghraifft, darpariaeth Prydau Ysgol Am Ddim.
- 10 Fe wnaethom hefyd gynnal adolygiadau manwl o'r Rhaglen Profi, Orlhain, Diogelu, cyflenwi a chaffael Cyfarpar Diogelu Personol a'r rhaglen frechu. Fel rhan o'n gwaith Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus a'n hadroddiadau ar gyllid y GIG, rydym wedi tracio ac egluro gwariant cyhoeddus ar yr ymateb i'r pandemig.
- 11 Rydym wrthi ar hyn o bryd yn gwneud gwaith pellach sy'n edrych ar ôl-groniad rhestri aros y GIG, gan adeiladu ar ein hadroddiad cynharach i adnabod cyfleoedd ar gyfer ailgychwyn ac ailosod y system gofal wedi'i gynllunio ar ôl ton gyntaf COVID-19. Ochr yn ochr â hyn rydym yn bwrw golwg ar yr heriau system gyfan sy'n wynebu gwasanaethau gofal heb ei drefnu a waethygydd gan y pandemig, gan gynnwys pwysau ar y rhyngwyneb iechyd a gofal sy'n golygu bod cleifion yn wynebu oedi yn yr ysbyty pan ydynt yn ddigon ffit yn feddygol i adael. Bydd ein gwaith ar ofal wedi'i gynllunio a heb ei drefnu'n cael ei ategu gan waith sy'n bwrw golwg ar yr heriau a'r pwysau o ran y gweithlu y mae'r pandemig wedi'u hamlygu yn y GIG ac ym maes gofal cymdeithasol.
- 12 Rydym hefyd yn amcanu at adeiladu ar ein gwaith archwilio cyfrifon i ddarparu sylwebaeth archwilio ar reoli grantiau a ddyfarnwyd i fusnesau mewn ymateb i'r pandemig, gan gynnwys trefniadau i ddiogelu rhag twyll. Ac rydym yn archwilio gwaith llywodraeth leol i gefnogi cydnerthedd cymdeithasol a hunanddibyniaeth, gan roi sylw i wersi o ymatebion cymunedau i'r pandemig.
- 13 **Ar gyfer blynyddoedd yn y dyfodol**, rydym yn cynnig parhau i dracio ac adrodd ar wariant sy'n gysylltiedig â COVID-19 a chanolbwyntio gwaith ar adfer a chydnerthedd. Gallwn hefyd fwrw golwg ar barodrwydd ar gyfer pandemig yn y dyfodol, yn amodol ar alinio ag ymchwiliad cyhoeddus y DU.
- 14 Rydym yn awyddus i gadw ffocws ar feysydd gwasanaeth yr effeithiwyd arnynt gan y pandemig a lle mae cyllid ychwanegol wedi cael ei glustnodi i gefnogi adferiad. Gallai hyn gynnwys gwaith sy'n archwilio ôl-groniadau o ran triniaeth gan y GIG mewn mwy o fanylder, gan gynnwys mewn meysydd penodol megis gwasanaethau canser. Gallai hefyd gwmpasu ymdrechion i ddal i fyny ar ddysgu a gollwyd ar draws y sector addysg. Rydym hefyd yn ystyried bwrw golwg ar sut y mae gwasanaethau gofal sylfaenol yn trawsnewid wrth iddynt fynd ar drywydd

adferiad, gyda ffocws posibl ar fynediad teg at wasanaethau a dulliau mwy integredig o ddarparu gofal sylfaenol gan gynnwys cysylltiadau â gwasanaethau eraill megis gofal cymdeithasol a thai.

- Rydym yn ystyried gwaith sy'n bwrw golwg ehangach ar gydnerthedd y sector gofal cymdeithasol o ystyried yr achosion o fregusrwydd a amlygwyd yn y sector hwnnw gan y pandemig. Rydym hefyd yn ystyried bwrw golwg ar wasanaethau iechyd meddwl a fydd yn bwysicach nag erioed i reoli gwaddol y pandemig. Rydym yn cynnal sgysiau cynnar gyda chyrrff arolygu a rheoleiddio eraill ynglŷn â'n priod fuddiannau mewn perthynas â gwasanaethau iechyd meddwl ar gyfer plant a'r glasoed.

## Byd sy'n newid

### Argyfwng yr hinsawdd a natur

- Rydym wrthi ar hyn o bryd yn cynnal 'adolygiad sylfaenol' fel rhan o'n hymrwymiad i raglen waith hirdymor ar newid hinsawdd. Rydym yn bwrw golwg ar sut y mae cyrrff cyhoeddus yn gweithredu i leihau allyriadau carbon a chyrraedd targedau datgarboneiddio 2030.
- Gan dynnu'n rhannol ar yr adolygiad sylfaenol, byddwn hefyd yn adolygu cynlluniau lleihau carbon pob un o'r 22 o brif gynghorau fel rhan o'n rhaglen o waith archwilio perfformiad lleol ac rydym eisoes wedi gwneud gwaith manylach yn y maes hwn mewn rhai cyrrff llywodraeth leol unigol. Rydym hefyd yn y camau cynnar o ran pennu cwmpas gwaith ar reoli perygl llifogydd.
- Ar gyfer blynyddoedd yn y dyfodol**, byddwn yn gwneud gwaith pellach a oleuir gan adborth o'n hadolygiad sylfaenol. Rydym yn ystyried bwrw golwg ar deithio gwyrdd i ddechrau, a hynny'n cynnwys teithio llesol ac o bosibl adolygiad Llywodraeth Cymru o brosiectau adeiladu ffyrdd newydd.
- Gallai meysydd eraill ar gyfer gwaith posibl yn y blynyddoedd dilynol gynnwys gwaith pellach ar agweddau technegol ar leihau carbon, megis cyllidebu carbon neu archwilio arbedion carbon. Neu fwrw golwg ar liniaru effeithiau allyriadau neu addasu i'r newid yn yr hinsawdd, er enghraifft o ran cynllunio at argyfwng yn gyffredinol yn ogystal â meysydd penodol sy'n achosi pryder megis llygredd aer a bioamrywiaeth.

### Trechu anghydraddoldeb

- Mae ein gwaith dan thema trechu anghydraddoldeb yn adlewyrchu diffiniad eang o gydraddoldeb fel cysyniad sy'n cwmpasu nodweddion gwarchoddedig yn ogystal â statws economaidd-gymdeithasol. Ar hyn o bryd rydym yn cynnal astudiaeth sy'n bwrw golwg ar ddefnydd cyrrff cyhoeddus o Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Mae gennym hefyd waith ar y gweill sy'n bwrw golwg ar ymdrechion llywodraeth leol i drechu tlodi.

- 21 **Ar gyfer blynyddoedd yn y dyfodol**, rydym yn ystyried rhaglen waith a fydd yn bwrw golwg ar anghydraddoldebau iechyd, y mae'r pandemig wedi'u hamlygu. Rydym hefyd yn ystyried bwrw golwg ar rai o'r rhaglenni i wella cyfleoedd bywyd plant a phobl ifanc – er enghraifft i bontio bylchau cyrhaeddiad mewn addysg, maethu, yn y blynyddoedd cynnar a'r Warrant leuenctid.
- 22 Rydym wedi adnabod ystod o feysydd gwasanaeth penodol y gallem eu harchwilio sy'n cefnogi pobl agored i niwed, megis y rhai sy'n wynebu risg o fod yn ddiartref a chysgu allan i wneud gwaith dilynol mewn perthynas â gwaith archwilio blaenorol, pobl â materion camddefnyddio sylweddau a gofalwyr. Ceir hefyd rai cynlluniau a mentrau allweddol yr ydym yn ystyried bwrw golwg arnynt gan gynnwys cyflwyno'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol, cyflawni strategaethau ar gydraddoldeb hiliol, y Gymraeg, unigrwydd ac arwahanrwydd, ac ymdrechion i frwydro yn erbyn caethwasiaeth fodern.

## Rheoli cyfleoedd a risgiau yn dilyn Brexit

- 23 Dros y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi gwneud gwaith a oedd yn bwrw golwg ar agweddau ar Brexit. Rydym wedi bwrw golwg ar ymdrechion i reoli effeithiau posibl Brexit ar gyfer defnyddio cyllid yr UE. Rydym hefyd wedi adrodd ar baratodau gwasanaethau cyhoeddus ar gyfer Brexit heb gytundeb a'u paratodau dilynol ar gyfer diwedd y cyfnod pontio.
- 24 **Ar gyfer blynyddoedd yn y dyfodol**, rydym yn ystyried gwaith a fydd yn bwrw golwg ar rai o'r canlyniadau ariannol uniongyrchol: defnyddio cyllid yr UE sy'n weddill mewn pryd a pharatoi ar gyfer yr hyn a gyflwynir yn lle'r cronfeydd strwythurol, a fydd yn cael ei redeg gan Lywodraeth y DU. Rydym hefyd yn ystyried bwrw golwg ar yr hyn a gyflwynir yn lle rhaglenni eraill yr UE, megis ar gyfer cymorth amaethyddol a gwledig a rhaglenni cyfnewid rhyngwladol i fyfyrwyr.
- 25 Yn olaf, rydym yn meddwl am wneud gwaith ar gymorth ar gyfer sectorau penodol yr effeithiwyd arnynt gan newidiadau i'r amgylchedd masnachu rhyngwladol gan gynnwys, o bosibl, allforwyr a phorthladdoedd Cymru.

## Trawsnewid y modd y darperir gwasanaethau



### Gweinyddu, cyllid a rheoli

- 26 Mae gennym amrywiaeth o waith ar y gweill ar hyn o bryd sy'n bwrw golwg ar weinyddu, cyllid a rheoli cyhoeddus, gan gynnwys ein gwaith archwilio cyfrifon a gwaith lleol ar draws cyrff y GIG a llywodraeth leol sy'n ystyried a oes ganddynt drefniadau priodol i sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y modd y maent yn defnyddio arian cyhoeddus.
- 27 Rydym ar hyn o bryd yng nghamau olaf adolygiad o gynllunio'r gweithlu yn Llywodraeth Cymru. Mae ein gwaith Llamu Ymlaen mewn llywodraeth leol yn bwrw golwg ar agweddau ar yr adferiad o COVID-19, gan gynnwys cynllunio'r gweithlu a defnyddio adeiladau. Rydym hefyd yn gwneud gwaith ar draws llywodraeth leol, yn bwrw golwg ar y defnydd o fentrau cymdeithasol i ddarparu gwasanaethau.
- 28 **Ar gyfer blynyddoedd yn y dyfodol**, byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar gynaliadwyedd ariannol a chynllunio ariannol fel her allweddol i wasanaethau cyhoeddus. Rydym yn bwriadu dal i wneud mwy o ddefnydd o'r gudd-wybodaeth a thystiolaeth a gesglir o'n gwaith archwilio ariannol, gan adeiladu ar y gwaith yr ydym wedi'i wneud i adrodd ar gyllid y GIG a chyfrifon Llywodraeth Cymru.
- 29 Byddwn yn cadw golwg ar drefniadau llywodraethu mewn perthynas â chreu cyrff newydd, gan gynnwys y Cydbwyllgorau Corfforedig newydd mewn llywodraeth leol, lle bydd gan yr Archwilydd Cyffredinol rôl statudol, a'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil arfaethedig i gyllido, rheoleiddio a chefnogi'r holl addysg ôl-16. Rydym hefyd yn ystyried peth gwaith i fwrw golwg ar lywodraethu a goruchwyllo'r parciau cenedlaethol, yn enwedig o ystyried cynlluniau i greu parc cenedlaethol newydd ym Mryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy.
- 30 Mae maes arall posibl ar gyfer ffocws yn y dyfodol yn ymwneud â thirwedd newidiol gwasanaethau cyhoeddus a dulliau o ddarparu. Gall hyn gynnwys testunau penodol, megis adrodd ar berfformiad a rheoli perfformiad. Rydym hefyd yn meddwl am sut y gallwn fwrw golwg ar feysydd gwasanaeth neu raglenni penodol o safbwynt yr uchelgeisiau ar gyfer gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar ddinasyddion, sy'n seiliedig ar asedau ac a oleuir gan leisiau nas clywir yn aml.
- 31 Bydd ein gwaith ar weinyddiaeth gyhoeddus hefyd yn ystyried beth allwn ni ei gynnwys yn ein rhaglen waith a allai gynorthwyo Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus y Senedd i archwilio testunau sy'n berthnasol i'w gylch gwaith.

## Digidol a defnyddio data

- 32 Rydym ar hyn o bryd yng nghanau cynnar astudiaeth sy'n bwrw golwg ar seilwaith band eang/cynhwysiant digidol ac sy'n dilyn ymlaen o waith blaenorol ar seibergadernid. Mae ein hadolygiad o ymdrechion llywodraeth leol i drechu tlodi'n cynnwys elfen o waith sy'n bwrw golwg ar dlodi digidol.
- 33 Rydym wrthi yn awr yn dechrau ein gwaith archwilio rheolaidd gyda'r corff newydd Iechyd a Gofal Digidol Cymru, a fydd yn cynnwys gwaith i fwrw golwg ar effeithiolrwydd y modd y mae'r sefydliad hwnnw'n rhoi cymorth ym maes gwybodeg i'r system iechyd a gofal. Yn dilyn ein hadroddiad yn 2020, rydym wedi bod yn tracio datblygiadau o ran cyflwyno System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS).
- 34 **Ar gyfer blynyddoedd yn y dyfodol**, rydym yn ystyried gwaith i fwrw golwg ar newid i ddarparu gwasanaethau ar-lein, gan adeiladu ar wersi a ddysgwyd yn ystod y pandemig gyda ffocws ar ddefnyddwyr gwasanaethau. Ac rydym yn ystyried peth gwaith, o bosibl â ffocws ar arfer da neu ymchwil, i edrych ar ddefnyddio cyfrifiadura cwmwl.
- 35 Gan bod digidol a data'n agwedd fwyfwy pwysig ar weithgarwch rheolaidd i ddarparu gwasanaethau, mae'r rhain yn debygol o gael eu cynnwys fel elfennau allweddol o'n hadolygiadau o feysydd gwasanaeth a thestunau penodol, gyda ffocws ar ystyried i ba raddau y mae datblygiadau digidol a dadansoddi data o gymorth i drawsnewid gwasanaethau.

## Cydweithio

- 36 Dros y blynyddoedd diwethaf rydym wedi bwrw golwg ar nifer o feysydd lle mae sefydliadau'n cydweithio i ddarparu gwasanaethau. Er enghraifft, ein hadolygiad o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a'n hadolygiad o'r Gronfa Gofal Integredig. Rydym hefyd wedi cyflwyno adroddiad yn ddiweddar ar gydweithio i gomisiynu lleoliadau mewn cartrefi gofal ar gyfer pobl hŷn ac ar draws y gwasanaethau brys.
- 37 **Ar gyfer blynyddoedd yn y dyfodol**, rydym yn ystyried gwaith penodol i fwrw golwg ar lywodraethu partneriaethau, gan gynnwys Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol – a hynny o bosibl yn gysylltiedig â gwaith ar y rhyngwyneb iechyd a gofal. Rydym yn ystyried bwrw golwg ar gydwasanaethau o fewn a rhwng gwahanol sectorau, yn anad dim y GIG a llywodraeth leol.
- 38 Rydym yn meddwl y gallai fod yn werth gwneud peth gwaith, o bosibl â ffocws ar arfer da, ar yr hyn sydd o gymorth ac sy'n rhwystr i gydweithio ar y rheng flaen mewn gwasanaethau cyhoeddus. Mae ffocws arall posibl yw bwrw golwg ar sut y mae gwasanaethau cyhoeddus yn cydweithio gyda phartneriaid eraill, yn y sector gwirfoddol, gyda chymunedau a chyda chyrrff preifat. Gall hyn fod trwy ddarn penodol o waith neu drwy ei ymgorffori mewn ffocws trwy astudiaethau ar destunau penodol.



## Rhaglenni a buddsoddiadau hirdymor

- 39 Mae gan Lywodraeth Cymru a gwasanaethau cyhoeddus ystod o gynlluniau ar gyfer rhaglenni polisi a buddsoddi allweddol sydd wedi'u bwriadu i effeithio ar lesiant tymor hwy'r boblogaeth. Caiff llawer o'r rhain eu nodi yn y Rhaglen Lywodraethu ac maent yn cael sylw mewn rhannau eraill o'r ddogfen hon dan themâu eraill. Mae gennym waith ar y gweill ar hyn o bryd sy'n bwrw golwg ar raglenni allweddol, gan gynnwys gwaith ar dai fforddiadwy.
- 40 **Ar gyfer blynyddoedd yn y dyfodol**, rydym yn ystyried bwrw golwg ar ystod o wasanaethau a rhaglenni. Gallai hyn gynnwys gwaith ar reoli etifeddiaeth tomenni glo a diogelwch adeiladau a rheoli adeiladu, yn enwedig yng ngoleuni Grenfell. Rydym yn ystyried gwaith ar ddefnydd hirdymor o gyllid cyfalaf a seilwaith, o bosibl gan ailymweld â gwaith ar adeiladau ysgolion yn ogystal â chynllunio cyfalaf a defnyddio cyfalaf yn y GIG a llywodraeth leol yn fwy eang (gan fwrw golwg o bosibl ar rai prosiectau mawr penodol) a'r Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru.
- 41 Rydym yn awyddus bod ein gwaith yn cynnwys ffocws ar atal ac ymyrryd yn gynnar. Un maes posibl fyddai cynnydd o ran trechu gordewdra a hybu ffyrdd iachach o fyw. Rydym hefyd yn meddwl am waith pellach i fwrw golwg ar dai fel ffactor galluogi allweddol ar gyfer llesiant. Un maes ffocws arall posibl yw datblygu economaidd, gan gynnwys yr economi sylfaenol, twristiaeth a'r farchnad ymwelwyr a bylchau o ran sgiliau galwedigaethol.

## Gwaith dilynol ac unrhyw adborth arall



- 42 Yn ychwanegol at y testunau a nodir uchod, byddwn yn ystyried gwaith dilynol mewn meysydd yr ydym wedi bwrw golwg arnynt yn flaenorol. Rydym wedi rhestru testunau isod y cyhoeddwyd adroddiadau arnynt trwy ein rhaglenni gwaith cenedlaethol ers mis Ebrill 2018<sup>5</sup>.
- 43 Byddem hefyd yn croesawu unrhyw adborth arall y gall fod arnoch eisiau ei ddarparu am ein rhaglen waith yn seiliedig ar gynnwys y ddogfen ymgynghori hon. Sylwer bod manylion sut i gysylltu â ni'n fwy cyffredinol, er enghraifft i godi pryder penodol ynglŷn â gwariant cyhoeddus, ar gael ar ein [gwefan](#).

<sup>5</sup> Yn ein hadroddiad blynyddol a chyfrifon bob blwyddyn, rydym yn cynnwys yn y rhestr hon rai allbynnau eraill megis offer data, canllawiau a phapurau trafod neu sylwebaeth archwilio ar ffurf gohebiaeth i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Senedd (Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus erbyn hyn).



## Adroddiadau cenedlaethol ers mis Ebrill 2018

2021-22		
<a href="#">Caffael a Chyflenwi Cyfarpar Diogelu Personol ar gyfer Pandemig COVID-19</a>	<a href="#">Cyllid Myfyrwyr</a>	<a href="#">Gofalu am y Gofalwyr: Cefnogi lles staff y GIG yn ystod pandemig COVID-19</a>
<a href="#">Yn Ôl Eich Doethineb - Gwasanaethau Dewisol Llywodraeth Leol</a>	<a href="#">Adfywio Canol Trefi yng Nghymru</a>	<a href="#">Rhaglen Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru</a>
<a href="#">Trefniadau Llywodraethu Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru</a>	<a href="#">Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus</a>	<a href="#">Comisiynu Cartrefi Gofal ar gyfer Pobl Hŷn</a>
<a href="#">Gweithredu rhaglen frechu COVID-19 yng Nghymru</a>	<a href="#">Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol - Effaith COVID-19, Adferiad a Heriau yn y Dyfodol</a>	<a href="#">Cydweithio rhwng y Gwasanaethau Brys</a>
2020-21		
<a href="#">Canfyddiadau o archwiliadau egwyddor datblygu cynaliadwy'r Archwilydd Cyffredinol</a>	<a href="#">Deddfu gwell: yr her o roi deddfwriaeth ar waith</a>	<a href="#">Darparu prydau ysgol am ddim yn ystod y cyfyngiadau</a>

**2020-21**

<u>Sicrhau bod grantiau datblygu gwledig a ddyfarnwyd heb gystadleuaeth yn rhoi gwerth am arian</u>	<u>Masnacheiddio mewn llywodraeth leol</u>	Seibergadernid yn y sector cyhoeddus <sup>6</sup>
<u>Cysgu allan yng Nghymru - problem i bawb; cyfrifoldeb i neb</u>	<u>Llywodraeth leol - cynaliadwyedd ariannol</u>	<u>Ei Wneud yn Wahanol, Ei Wneud yn Iawn? Llywodraethu yn y GIG yn Ystod Argyfwng COVID-19</u>
<u>Gwella ein perfformiad - mynd i'r afael â thwyll yng Nghymru</u>	<u>Y Fenter Twyll Genedlaethol</u>	<u>Profi, Orlhain, Diogelu yng Nghymru: Trosolwg o'r cynnydd hyd yma</u>
<u>Adnewyddu Ysbyty Glan Clwyd – Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr</u>	<u>System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS)</u>	<u>Cyflenwi Gwasanaeth TGCh Llywodraeth Cymru yn Fewnol</u>
<u>Cracio'r cod: rheoli codio clinigol ledled Cymru</u>	<u>Trefniadau cyflenwi ar gyfer absenoldeb athrawon - gwaith dilynol</u>	
<u>10 Cyfle i ailosod ac ailgychwyn system gofal wedi'i gynllunio y GIG</u>	<u>Sylwadau ar Gyfrifon Cyfunol 2019-20 Llywodraeth Cymru</u>	

<sup>6</sup> Gan ystyried y risg bosibl o achosi ymosodiadau seiber, fe wnaethom benderfynu dosbarthu'r adroddiad yn breifat i gyrrff a archwilir yn hytrach na'i gyhoeddi ar ein gwefan.

**2019-20**

<u>Effeithiolrwydd awdurdodau cynllunio lleol yng Nghymru</u>	<u>Tlodi tanwydd</u>	<u>Adolygiad ar y cyd o drefniadau llywodraethu ansawdd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg</u>
<u>Trefniadau atal twyll yn sector cyhoeddus Cymru</u>	<u>Adolygiad o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus</u>	<u>Rheolaeth ariannol a llywodraethu – Cynghorau tref a chymuned 2018-19</u>
<u>Y Gronfa Gofal Integredig</u>	<u>Tueddiadau o ran gwariant cyhoeddus yng Nghymru</u>	<u>Gwella ffordd yr A465 (Rhan 2) – canfyddiadau interim</u>
<u>Y drws blaen i ofal cymdeithasol i oedolion</u>	<u>Gwasanaethau gofal sylfaenol yng Nghymru</u>	<u>Trefniadau ar gyfer penodi uwch aelodau o staff dros dro – Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr</u>
<u>Llesiant pobl ifanc</u>	<u>Cynnydd o ran rhoi'r ddeddf trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ar waith</u>	

**2018-19**

<a href="#"><u>Darlun o ofal sylfaenol yng Nghymru</u></a>	<p>Rheoli Gwastraff</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• <a href="#"><u>Caffael Capasiti Trin Gwastraff Gweddilliol a Gwastraff Bwyd</u></a></li><li>• <a href="#"><u>Ailgylchu Trefol</u></a></li><li>• <a href="#"><u>Atal Gwastraff</u></a></li></ul>	<a href="#"><u>Rheoli Ariannol a Llywodraethu – Cyngorau Tref a Chymuned 2017-18</u></a>
<a href="#"><u>Siaradwch fy iaith: Goresgyn rhwystrau iaith a chyfathrebu mewn gwasanaethau cyhoeddus</u></a>	<a href="#"><u>Rheoli apwyntiadau cleifion allanol ar draws Cymru</u></a>	<a href="#"><u>Datganoli Cyllidol yng Nghymru (gwaith dilynol)</u></a>
<a href="#"><u>Myfyrio ar flwyddyn un – Sut mae cyrff cyhoeddus wedi ymateb i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015</u></a>	<a href="#"><u>Gwasanaethau Radioleg yng Nghymru</u></a>	<a href="#"><u>Trefniadau Archwilio Mewnol mewn Cyngorau Tref a Chymuned yng Nghymru</u></a>
<a href="#"><u>Comisiynu Gwasanaethau Llety i Oedolion ag Anableddau Dysgu yn Strategol</u></a>	<a href="#"><u>Gwasanaethau Llywodraeth Leol i Gymunedau Gwledig a Darparu Gwasanaethau Llywodraeth Leol i Gymunedau Gwledig: Trosglwyddo Asedau Cymunedol</u></a>	<a href="#"><u>Cynllun tocynnau bws rhatach Llywodraeth Cymru ar gyfer pobl ifanc – Fy Ngherdyn Teithio</u></a>
<a href="#"><u>Perthynas Llywodraeth Cymru â Pinewood</u></a>	<a href="#"><u>Rheoli effaith Brexit ar y Rhaglen Datblygu Gwledig yng Nghymru</u></a>	<a href="#"><u>Gwariant GIG Cymru ar staff asiantaeth</u></a>

**2018-19**

Gwasanaethau Gofal Sylfaenol y Tu Allan i Oriau

Cymorth ariannol Llywodraeth Cymru ar gyfer busnesau

Paratodau yng Nghymru ar gyfer Brexit 'heb gytundeb'

Rheoli effaith Brexit ar Gronfeydd Strwythurol yr UE

Aeddfedrwydd llywodraeth leol o ran y defnydd o ddata

Adolygiad o'r trefniadau a oedd yn cefnogi Penderfyniad Buddsoddi Cyntaf Bargaen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd



Archwilio Cymru  
24 Heol y Gadeirlan  
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: [post@archwilio.cymru](mailto:post@archwilio.cymru)

Gwefan: [www.archwilio.cymru](http://www.archwilio.cymru)

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.  
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.